# DYMA sylwadau rhai o bobl ifainc Esquel a Threvelin ynglyn ag ychydig o'r gweithgareddau a gynhelir yma yn Yr Andes. Gan: Rhian Jones

**Mae'r bobl ifainc i gyd yn gaffaeliad mawr i'r Ysgol Gymraeg yn y fan hon: maent yn awyddus i ymarfer yr iaith ac yn llwyddo i'w dysgu'n gyflym. Maent hefyd yn barod iawn i helpu gyda'r gweithgareddau – sy'n amrywio o weithio yn yr ardd yn Nhy Capel Trevelin i helpu gofalu am y plant bach sy'n dod i'r dosbarthiadau meithrin. Gobeithio y cewch flas ar ddarllen eu sylwadau!**

*Nia a Rhian*



### Rhaglen radio "Jam Llaeth"

Sioned Huws, yr athrawes oedd yma y llynedd, wnaeth ddechrau'r rhaglen radio "Jam Llaeth" bob nos Sadwrn. Rydw i a ffrind o'r enw Ana Clara yn gwneud y rhaglen weithiau. Rydyn ni'n chwarae cerddoriaeth fodern gan grwpiau fel "Melys" a "Celt", ac yn siarad am newyddion yr Ysgol Gymraeg.

Ym mis Tachwedd, daeth D.J. o Gymru i ofyn cwestiynau i ni – Dafydd Du. Nawr, mae poster o Dafydd Du yn yr orsaf radio! Mae yna raglen radio arall hefyd, bob nos Sul. Enw'r rhaglen ydy "*Mawl a Chân*".

Erica, dosbarth blwyddyn 4, Trevelin

### Gwerthu teisennau

Bob penwythnos, mae yna farchnad fechan ar y "plaza" yn Nhrevelin. Y penwythnos nesa', rydyn ni'n mynd i wneud teisennau a'u gwerthu nhw yno, er mwyn codi arian i'r Ysgol Gymraeg. Rydyn ni'n mynd i wneud stondin a'i addurno efo baner Cymru. Dwi'n credu y byddwn ni'n bwyta rhai o'r teisennau hefyd!

Ana Clara, dosbarth blwyddyn 5, Trevelin

### Dawnsio gwerin

Bob nos Wener yn Esquel, mae'r grwp dawnsio gwerin yn cyfarfod. Mae deg ohonon ni yn y grwp. Ein hoff ddawns ni ydy "Mi welais Jac y Do" - rydyn ni'n canu wrth ddawnsio. Rydyn ni'n chwerthin llawer bob nos Wener, ac yn cael hwyl yn y dosbarth dawnsio gwerin. Mae dosbarth dawnsio gwerin yn Nhrevelin hefyd. Maen nhw'n ymarfer ar nos Fercher.

Delfina a Valeria, dosbarth blwyddyn 3

### Nosweithiau Llawen

Ym mis Rhagfyr, wnaethon ni gael Noson Lawen pan oedd pob dosbarth yn Esquel yn gwneud sgets. Wnaeth fy nosbarth i wneud sgets am Noson Ffasiynau. Roedd y plant bach yn ardderchog, ac wedi gwisgo fel anifeiliaid. Wedyn, wnaethon ni gael bwyd efo'n gilydd.

Grisel, dosbarth bobl ifainc, Esquel

### Llais yr Andes

Mae cylchlythyr gan yr Ysgol Gymraeg, ac enw'r cylchlythyr ydy "Llais yr Andes". 'Dyn ni'n rhoi erthyglau i Sandra de Pol o Drevelin a Gladys Jones o Esquel, sy'n teipio'r papur.

Jessica, blwyddyn 3, Trevelin

### Llyfr Ryseitiau

Dwi'n teipio rhywbeth hefyd – dwi'n gwneud llyfr ryseitiau i godi arian i'r Ganolfan Gymraeg yn Esquel. Mae Joyce Powell a Lizzie Lloyd o Esquel yn gwneud y gwaith efo fi. Os dach chi eisiau copi o'r llyfr, cysylltwch â ni! Mae pawb sy'n dod o Gymru yn mwynhau bwyta bwyd arbennig Y Wladfa – teisen hufen, teisen ddu, jam llaeth.....maen nhw'n ardderchog!

Romina Azzolini, blwyddyn 2, Esquel

### Capel Bethel, Trevelin a Chapel Seion, Esquel

Mae yna wasanaeth yng Nghapel Seion yn rheolaidd, ac o bryd i'w gilydd yng Nghapel Bethel. Ar Noswyl y Nadolig, cafwyd gwasanaeth garolau yn y ddau gapel. Weithiau, mae ymwelwyr o Gymru yn cynnal gwasanethau yn y capeli. Yn ddiweddar, daeth criw o Gymry draw gyda Cathrin Williams a chafwyd cyfarfod yn Esquel o dan eu harweiniad nhw pan gawsom gyfle i ystyried hanes a dysgeidiaeth Dewi Sant.

Rydyn ni bob amser yn falch i groesawu'r Cymry. Ym mis Ebrill, bydd criw o Ysgol Glantaf yn dod yma i ddringo, ac mi fyddaf i'n mynd gyda nhw i ddringo un o fynyddoedd mwyaf godidog yr ardal – mynydd o'r enw Gorsedd y Cwmwl.

Alun, dosbarth gloywi, Trevelin

### Bwyta pizzas yn y Ty Capel

Federico ydw i, a dwi'n dysgu Cymraeg yn Esquel. Doedd dim dosbarthiadau Cymraeg yn y gwyliau, ond mi wnes i ymarfer llawer trwy fynd draw i weld Nia a Rhian yn y Ty Capel yn Nhrevelin. Weithiau, roedd y bobl ifanc yn mynd draw i'r Ty Capel i fwyta pizzas efo nhw. Dros y gwyliau, wnaeth rhywun arall symud i'r Ty Capel i fyw efo Nia a Rhian – ci o'r enw Stwffin William Jones. Mae S.W. yn licio pizzas hefyd.

Federico, dosbarth blwyddyn 2, Esquel



Mwynhau yn y Wladfa

14 Ebrill 2001.